

DOLEN Y TAB – 1

25–26 Ebrill 2020

Neges Eluned Davies Scott, Cadeirydd y Bwrdd

Mae'r wythnosau diwethaf wedi cadarnhau ein cred bod capel ac eglwys yn fwy nag adeilad er dwi'n siŵr eich bod chi, fel fi, yn colli'r cyfle i addoli a chymdeithasu gyda'n gilydd yn y Tabernacl. Mae'n dda cael cyfraniadau ysbrydol ac ysbrydoledig gan nifer o'n aelodau trwy ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae gen i rywfaint o bryder, fodd bynnag, nad yw pob un o'n haelodau'n hoffi neu'n gyfarwydd â defnyddio dulliau electronig cyfrifiadurol o gyfathrebu, a byddwn yn croesawu eich awgrymiadau ar sut y gallwn sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion ysbrydol hwythau.

Carwn ddiolch i aelodau o'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol a Phwyllgor y Meddiannau am eu gwaith parhaus, a hefyd i'n Gofalwyr Ardal sy'n cynnig cefnogaeth lle bo angen i'n aelodau sy'n hunan-ynysu. Roeddwn yn falch iawn o weld Efail Isaf yn ymddangos ar y newyddion yn ddiweddar fel esiampl o bentref sy'n cydweithio fel cymuned, gyda nifer o'n haelodau'n cyfrannu at y cyfweiliadau. Gobeithio'n fawr y bydd yr ysbryd cymunedol newydd hwn ledled y wlad yn parhau ymhell ar ôl i'r sefyllfa bresennol hon ddod i ben.

Gyda'r tebygolrwydd na fyddwn yn cwrdd am gryn amser eto, rwy'n gobeithio eich bod yn iach ac, fel ninnau, yn gallu creu rhyw fath o 'normalrwydd' a threfn yn eich bywydau.

Dolen y Tab

Yn absenoldeb y daflen wythnosol fel cyfrwng hwylus i ledaenu newyddion gan ofalwyr ardal, newyddion teuluol, cyhoeddiadau, diolchiadau ac ati, mae sawl un wedi awgrymu llunio ac anfon e-bost wythnosol at aelodau'r Tabernacl. Mae nifer o gapeli eraill eisoes wedi mabwysiadu cynllun tebyg, a hynny'n fuan iawn wedi cyhoeddi'r cyfyngu. Yn y cyfamser rydym wedi bodloni ar anfon negeseuon yn achlysurol ar e-bost, Facebook ac ar ein gwefan.

Ond gan fod y newyddion diweddaraf yn awgrymu bod ailagor y Tabernacl wythnosau lawer – os nad misoedd – i ffwrdd, dyma roi cynnig ar gynhyrchu cylchlythyr wythnosol i geisio llenwi'r bwlch. Ond fel yr awgryma Eluned yn ei neges amserol uchod, nid pob aelod sy'n berchen ar gyfrifiadurol, llechen neu ffôn symudol. Er mwyn rhoi cyfle i **bawb** dderbyn y newyddion mae'r cylchlythyr wedi ei gynhyrchu ar ffurf pdf a word.doc i alluogi Gofalwyr Ardal neu gymdogion i gynhyrchu copi papur i'r aelodau hynny sydd heb gyfrifiadurol. Cofiwch anfon unrhyw newyddion erbyn pawnsau lau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk neu 07710 237327.

Casgliad y Banc Bwyd

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd, unwaith eto, am fod mor gefnogol i apêl y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol i helpu Banc Bwyd Taf Elái ar adeg hynod o ddyrys yn ei hanes. Llwyddwyd i godi £1,800, fydd yn galluogi'r gwirfoddolwyr i brynu bwyd am rai wythnosau.

Mae Lol Delbridge, un o wirfoddolwyr y Banc Bwyd, wedi gofyn yn benodol i mi gyfleu ei diolch i chi:

"That's absolutely amazing! I cannot thank the people of Tabernacl enough for your ongoing support. You are such an amazing group. Thank you again and again."

Mae'r galw gymaint yn fwy dan yr amgylchiadau presennol, a'r cyfyngiadau wedi ein gorfodi i newid ein dull ni o gyfrannu. Mae'n ffrain i ni i gyd gael bod yn aelodau o gapel mewn ardal sydd mor ymwybodol o'r angen ar garreg ein drws.

Byddwn yn parhau â'r casgliad ym mis Mehefin, gan nad oes unrhyw arwyddion y byddwn yn medru ailafael yn ein dulliau arferol o helpu.

Yn ystod mis Mai byddwn yn troi ein golygon at anghenion parhaus y byd ac yn casglu at Wythnos Cymorth Cristnogol. Bydd mwy o fanylion ar gael tua diwedd y mis.

Diolch o galon.

Cadwch yn ddiogel,

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol.

Ymdeoliad Ioan Rees

Ddiwedd Mawrth, ymdeolodd Ioan Rees fel Rheolwr Safle ar sail iechyd. Yn anffodus, oherwydd y cyfyngu ar ein hoedfaon yn ystod ei wythnosau olaf wrth y gwaith, ni chafwyd cyfle i ddiolch iddo am ysgwyddo'r dyletswyddau mor gydwybodol, tawel a diffwdan. Bu yn y swydd am ychydig dros dair blynedd heb fanteisio fawr ddim, os o gwbl, ar y gwyliau blynyddol oedd yn ddyledus iddo. Diolch i ti Ioan am dy holl waith drosom.

Byddwn yn hysbysebu'n fuan am ollynydd i ddechrau yn y swydd pan fyddwn yn ailagor drysau'r capel unwaith yn rhagor. Yn y cyfamser, rydym yn hynod o ddyledus i aelodau Pwyllgor y Meddiannau am gadw golwg cyson ar y safle.

Galw am Gydlynnydd Safle

Un fu'n gefn mawr iawn i Ioan oedd Caroline Rees a wirfoddolodd i dderbyn y cyfrifoldeb am ddelio gyda phob ymholiad i hurio'r capel neu'r ganolfan. Rhoddodd wybod i ni ar ddechrau'r flwyddyn ei bod am gael ei rhyddhau o'r cyfrifoldeb adeg ymdeoliad Ioan.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Caroline am ei gwaith ac am greu system effeithiol iawn fel bo modd cyflawni'r gwaith o unrhyw fan yng Nghymru, a thu hwnt hefyd, ar yr amod bod ffôn symudol gennych. Mae Caroline hefyd wedi cynnig esbonio natur y dyletswyddau a rhoi hyfforddiant i'w holynnydd. Os ydych yn barod i ystyried gwneud y gwaith hwn ar ein rhan, yna rhowch wybod i Mike West (01443 206833 / mikealynwest@yahoo.co.uk, neu Gwilym Huws (01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk).